**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

**Dyddiad: Dydd Mercher, 4 Ebrill 2001**

**Amser: 9:30 am**

**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**

**Teitl: Buddiannau Anuniongyrchol Aelodau**

**Pwrpas**

1. Cytunodd y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr y dylid diwygio’r Atodiad i Reol Sefydlog 4 i safoni darpariaethau’r Cynulliad yn ymwneud â chofrestru a datgan buddiannau anuniongyrchol Aelodau. Mae’r papur hwn yn nodi’r cefndir i bapurau STD 02-05 (5) ac STD 02-01 (6).

**Cefndir**

2. Yn adolygiad cynharach y Pwyllgor o’r *Canllawiau ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau* nodwyd bod anghysonderau yn y gofynion i’r Aelodau ddatgan a chofrestru "buddiannau anuniongyrchol". Yn ystod ei gyfarfod ar 31 Ionawr ystyriodd y Pwyllgor gyflwyniad gan ymgynghorydd cyfreithiol y Cynulliad a oedd yn crynhoi’r papurau yr oedd ef a’r Ysgrifenyddiaeth wedi’u paratoi ar y mater. Ymddangosodd dau brif fater:-

- bod gorgyffwrdd rhwng y buddiannau a nodwyd yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 4 (y mae sancsiynau troseddol a sifil Adran 72 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn berthnasol iddo) a’r buddiannau a nodir ym mharagraff 2 Penderfyniad y Cynulliad ar 19 Mai 1999 (nad oedd sancsiynau i’w hategu). Cytunodd y Pwyllgor y dylid diwygio’r Penderfyniad i eithrio’r buddiannau hynny y mae’n rhaid eu cofrestru o dan Reol Sefydlog 4.

- a ddylai barhau i fod yn ofynnol i Aelodau ddatgan Buddiannau Anuniongyrchol. Cytunwyd y dylai’r gofynion fod yn benodol i gynnwys plant a diffiniad cadarn o "bartner"; y dylai barhau i fod yn ofynnol i Aelodau gofrestru a datgan buddiannau partneriaid a phlant; y dylid eu cynnwys ymhob un o'r categorïau perthnasol a restrir yn yr Atodiad i Reol Sefydlog 4. Gellid datgan buddiannau perthnasau eraill, yn ogystal â buddiannau nad ydynt yn rhai ariannol, yn wirfoddol.

1. Paratowyd diwygiad drafft o’r Atodiad i Reol Sefydlog 4,

STD 02-01(5) sy’n:-

- diddymu paragraff 2 penderfyniad 19eg Mai 1999 y Cynulliad,
- cynnwys diffiniad manwl o bartner, ac yn
- egluro y dylid hefyd cofrestru buddiannau partner a / neu blentyn.

1. Bydd angen adlewyrchu’r newidiadau yn y Canllawiau ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau. Cafodd copi drafft, STD 02-01(6), ei baratoi at y diben hwn.

***Yr Ysgrifenyddiaeth***